Atodiad 2

# CYNGOR CYMDEITHAS LLANFROTHEN
# LLANFROTHEN COMMUNITY COUNCIL

K. L. WILLIAMS
CLARC
☎
01766 513633

18 STRYD GLASLYN,
PORTHMADOG,
GWYNEDD LL49 9EG.

19 Ionawr 2009

Annwyl Syr,

Cais am ollyngdod i Aelodau'r Cyngor.

Beth amser yn ol cyflwynwyd cais gan y Cyngor am ollyngdod i'r Aelodau sydd a diddordeb ariannol ym Menter Llanfrothen oherwydd eu bod wedi buddsoddi arian yn y Fenter.

Gwrthodwyd y cais gan bwyllgor Safonau eich Cyngor oherwydd bryd hynny fod gan chwech o'r Aelodau fuddsoddiadau. Erbyn hyn mae y sefyllfa wedi gwaethygu oherwydd fod gan wyth o'r Aelodau fuddsoddiadau yn y Fenter, sef holl Aelodaeth y Cyngor.

O ganlyniad nid yw'n bosibl i'r Cyngor drafod unrhyw fater sydd yn berthnasol i'r Fenter a thrwy hyny Siop y Pentref. Ers hynny mae y Swyddfa Bost wedi cael ei chau sydd ynddoi hyn wedi bod yn golled enfawr i drigolion y pentref ar ardal o gwmpas.

Oherwydd hyn mae dyfodol y Siop yn y fantol ac mae hynny yn creu cryn bryder yn lleol, Mae'r Cyngor wrth gwrs yn awyddus i chwarae rhan flaenllaw i sicrhau ei dyfodol ond oherwydd y diddordeb mae yn methu gwiethredu.

Yr Aelodau sydd a buddsoddiadau yn y Fenter yw y Cynghorwyr Glyn Griffiths, Dafydd Watts, Myrfyn Hughes, Rhydwen Roberts, R.P.Jones, Rhys Williams Llio Griffiths ac Emlyn Roberts.

Dymunir pwysleisio y ffurfwyd y Fenter er ceisio cadw y Swyddfa Bost a Siop y Pentref ar agor ac nid fel cwmni gyda'r bwriad o wneud elw.

Os na chaniateir y cais bydd y Cyngor yn cael ei amddifadu o'r cyfle i drafod mater sydd o bwys mawr i drigolion y Gymuned leol.

Yn gywir,
[signature]
Clarc y Cyngor.

Prif Weithredwr.
Cyngor Gwynedd,
Swyddfa'r Cyngor,
Caernarfon.

PRIF WEITHREDWR
DERBYNWYD
24/2/3
20 JAN 2009
RECEIVED
CHIEF EXECUTIVE